

Plentyndod Fictoraidd yng Nghonwy

Blwch Adnoddau

Cwricwlwm Cymru
(gellir gwahaniaethu ar gyfer CA1, 2 a 3)



CANOLFAN
DDIWYLLIANT
CONWY
CULTURE
CENTRE



Bydd yr her hon yn canolbwyntio ar sgiliau ymchwil, creadigrwydd a chyfathrebu eich disgyblion, tra'n darparu profiad dysgu bywiog, hwyliog a boddhaus.

Tîm Canolfan Ddiwylliant Conwy sydd wedi gosod yr her.

Mae "Mantell yr Arbenigwr" yn ddull addysgol sy'n defnyddio cyd-destun dychmygol i gynhyrchu gweithgareddau pwrpasol ac ymgysylltu ar gyfer dysgu. Rydym wedi defnyddio rhai elfennau o'r dull hwn wrth ddatblygu'r adnoddau hyn.

Cwricwlwm Cymru

Mae'r adnodd hwn wedi'i ddatblygu i ategu Cwricwlwm Cymru. O'r 12 egwyddor pedagogiaidd a amlygwyd yn 'Dyfodol Llwyddiannus', mae'r adnodd hwn yn:

- creu cyd-destun dilys ar gyfer dysgu
- annog dysgwyr i dderbyn cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.
- cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a pherthnasoedd cadarnhaol
- annog cydweithredu
- hefyd yn annog ystod eang o ddulliau addysgu, hybu datrys problemau, creu a meddwl yn greadigol a defnyddio ac atgyfnerthu dysgu trawsgwricwlaidd ar draws y chwech maes dysgu

Mae'r adnodd hwn wedi'i ddatblygu ar drywydd y pedwar diben yn y cwricwlwm, datblygu pobl ifanc fel:

- dysgwyr uchelgeisiol, galluog, yn barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau
- cyfranwyr mentrus, creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion moesegol, hysbys Cymru a'r byd.
- unigolion iach, hyderus, yn barod i arwain bywydau llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Gellir diwallu'r chwech maes dysgu a phrofiad drwy ddilyn ac addasu ein dull 'Mantell' o fewn yr adnodd hwn. Mae'r dull hwn yn annog cyfraniad mentrus a chreadigol a datblygu sgiliau sydd â galw amdanynt gan gyflogwyr.

Y Celfyddydau Mynegiannol

Mae yna gyfleoedd ar gyfer defnyddio pum disgyblaeth celf, dawn, drama, ffilm a chyfryngau digidol a cherddoriaeth ar gyfer ymgysylltu'n gorfforol, emosiynol a chymdeithasol. Mae'r 'Fantell' hon yn creu profiad ystyrion fydd yn archwilio amrywiaeth a newidiadau diwylliannol drwy hanes Cymreig lleol. Bydd gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd yn cael eu datblygu drwy'r gweithgareddau, yn galluogi disgyblion i ymgysylltu gyda materion sydd wedi datblygu Cymru a'r byd, a fydd yn parhau i gael effaith ar eu bywydau.

Iechyd a Lles

Mae'r 'Fantell' hon yn cynnig cipolwg ar y newidiadau cymdeithasol sydd wedi effeithio ar blant drwy hanes. Mae'r cyd-destunau hyn yn caniatáu dadlau a thrafodaethau cymharol sy'n galluogi dysgwyr i ddeall a gwerthfawrogi profiadau ac ymateb eu hunain ac eraill i bwysau a galw cymdeithasol. Mae'r 'Fantell' gydweithredol hon yn darparu mynediad i ddysgwyr i sefyllfa gyflogaeth realistig ble gallant ddysgu am waith a sgiliau sydd o werth yn y gweithle.

Y Dyniaethau

Mae'r 'Fantell' hon yn darparu cyd-destun a phecynnau corfforol i drochi dysgwyr ym mywyd plentyn Fictoraidd – profiad plant, yr hyn yr oeddent yn ei glywed, sut yr oeddent yn cael eu trin a'u cosbi, sut yr oeddent yn gweithio, yn byw ac yn chwarae. Mae'r holl adnoddau wedi eu dewis yn ofalus i baentio darlun o fywyd, gwaith a natur cymdeithas bryd hynny. Bydd cyd-destun hanesyddol y 'Fantell' hon yn rhoi teimlad o berthyn drwy edrych ar y tebygrwydd a'r gwahaniaethau mewn plentynod gyda 130 o flynyddoedd o newid rhyngddynt.

Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Bydd y 'Fantell' hon yn datblygu gwybodaeth a sgiliau gwranddo a darllen, siarad ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd y cyfrifoldeb ymchwil a threfniadol ac elfennau ysgrifennu creadigol a chyfathrebu yn ysgogi hyder a sgiliau mewn cyd-destun mentrus.


Mathemateg a Rhifedd

Mae'r 'Fantell' hon yn rhoi cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau tîm ac fel unigolyn i ddefnyddio sgiliau rhifedd a gwybodaeth mathemateg drwy gysyniadau bywyd go iawn – o ymchwil a chynllunio i dasgau dylunio a gwerthuso ac o adio a thynnu syml (wedi'i gysylltu â'r degwm er enghraifft), i dablau, graffiau a dehongliad pellach o ddata hanesyddol.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Drwy ddefnyddio 'llygaid plentyn' drwy gydol stori hanes Fictoraidd Conwy, mae gan y dysgwyr gyfle gwych i gymharu â'u bywyd modern bob dydd. Mae ymchwilio deunyddiau, eu priodoleddau a'u defnydd yn dangos sut i dechnoleg ddatblygu yn y diwydiant gweithgynhyrchu. Bydd cyfle hefyd i edrych ar lanweithdra ac amodau byw ynghyd â salwch wedi hynny.

Ein cenhadaeth genedlaethol yw uchelgais, arloesi a hyder.



“ Mae’n gyfrifoldeb arnom i ysbrydoli, ymgysylltu ac ysgogi’r genhedlaeth nesaf o ddysgwyr wrth i ni geisio datblygu Cymru llewyrchus a mwy ffyniannus. Rydym yn byw mewn cyfnod heriol, ac ni fydd adeiladu cyfundrefn yr ydym i gyd yn falch ohoni yn dasg hawdd. Ond mae’n gweledigaeth ar gyfer addysg yn uchelgeisiol iawn. Mae angen unigolion tosturiol a chyflawn ar ein cenedl, sydd â sgiliau meddwl creadigol a dychymyg, yn ogystal gafael cryf ar lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, a gwytnwch i ragori yn – a chreu – swyddi newydd y dyfodol. Rhaid i ni sicrhau fod pob llais yn cael ei glywed ac nad oes unrhyw blentyn yn cael ei adael ar ôl. ”

Kirsty Williams - AS Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Y Cleient

Mae Canolfan Ddiwylliant Conwy yn ganolfan ragoriaeth arloesol ar gyfer diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau yn Sir Conwy, a leolir ar safle'r Hen Ysgol, Bodlondeb yn nhref Conwy.

Mae'r Ganolfan yn cynnwys archifdy'r sir, llyfrgell ardal, arddangosfeydd treftadaeth, canolfan gelfyddydau gymunedol, ystafell gyfarfod a chaffi.

Mae'n fan cychwyn gwych ar gyfer archwilio hanes cyfoethog Sir Conwy. Mae'r arddangosiadau yn arwain ymwelwyr drwy bum mil o flynyddoedd o hanes ac mae'n cynnwys gwrthrychau unigryw, gwaith celf hyfryd a dehongliad rhyngweithiol sy'n addas i'r teulu cyfan.

Llyfrgell a llawer mwy; dyma loches, lle i ymlacio neu i wneud tipyn o waith. Rhywle i eistedd ac ymlacio gyda phaned a llyfr da. Ydych chi erioed wedi mynd ati i ymchwilio i hanes lleol neu hanes eich teulu? Dyma'r cyfle perffaith, gyda staff cyfeillgar wrth law i'ch helpu i ddechrau arni.

Mae'r ardaloedd sydd wedi'u tirlunio o amgylch y ganolfan yn cynnwys gardd dawel synhwyraidd, llwybrau hygyrch a seddi wedi eu dylunio ar gyfer cael eu mwynhau gan bawb yn cynnwys y sawl sydd â dementia. Gallwch wrando ar leisiau lleol yn adrodd eu hanesion wrth i chi edmygu'r planhigion meddyginiaethol yn y planwyr ffiseg, sy'n cydnabod hanes mynachaid cyfoethog Conwy cyn y castell.

Yr Her

Ymchwilio, dylunio a datblygu eich arddangosfa amgueddfa eich hun o dan y teitl 'Bywyd Fictoraidd fel plentyn yng Nghonwy.' Cyflwyno eich arddangosfa i Dîm Canolfan Ddiwylliant Conwy.

Nod yr adnodd hwn yw ysbrydoli syniadau newydd, darparu propiau corfforol ar gyfer dysgu a senario realistig ar gyfer dysgu addasol. Mae hefyd y dewis i drefnu i ymweld â Chanolfan Ddiwylliant Conwy i'r plant gyflwyno'r arddangosfa a ddatblygwyd ganddynt.

Mae awgrymiadau am weithgareddau wedi eu cynnwys i roi cymorth i chi wrth gynllunio eich 'Mantell' trawsgwricwlaidd.

Sut ydyn ni'n canfod yr hyn a ddigwyddodd yn y gorffennol? Rydym wedi defnyddio llawer o ffynonellau; archifau Conwy, llyfrgelloedd, y rhyngwyd, papurau newydd, lluniau, paentiadau, cyfnodolion, llyfrau log, cofnodion ... Mae'n rhaid i chi fod yn ymchwiliwr, yn chwilio am dystiolaeth a chliwiau, a hefyd yn ddehonglwr, gan roi gwybodaeth at ei gilydd a ffurfio'r stori mwyaf tebygol. Mae'r rhain yn eu hunain yn sgiliau pwysig yr ydym yn gobeithio eich helpu i'w datblygu yn eich dysgwyr ifanc. Mae'r awgrymiadau o ran gweithgareddau wedi eu llunio i ddatblygu sgiliau pellach ar draws y 6 Maes Dysgu a datblygu plant i fod y gorau y gallan nhw fod.

Mae'r gwrthrychau i'w cyffwrdd yn yr achos hwn yn atgynrychiadau o'r eitemau a ddefnyddiwyd gan lawer o gartrefi yn y cyfnod Fictoraidd. Maent wedi eu cynnwys i helpu i ddod â phrofiadau John a'i deulu a'i ffrindiau yn fyw.

Dechreuodd yr Oes Fictoraidd yn 1837 pan oedd y Frenhines Fictoria yn esgyn i'r orsedd a fe barhaodd tan 1901 pan ddaeth ei theyrnasiad i ben. Roedd yn gyfnod o dlodi difrifol i rai, ac yn gyfnod o archwilio, dyfeisio a chyfoeth i eraill.

Mae John yn seiliedig ar hogyn go iawn oedd yn byw yn nhref Conwy. Ffuglen yw dyddiadur John ond mae wedi cael ei ddylanwadu gan yr ystod o gasgliadau o wybodaeth sydd ar gael o'r

cyfnod hwn. Mae wedi cael ei ysgrifennu'n syml ac i amlygu rhai o'r materion oedd yn effeithio ar fywyd yng Ngogledd Cymru. Mae'r holl ddigwyddiadau a drafodir yn cynrychioli digwyddiadau gwirioneddol a ddigwyddodd rhwng canol a diwedd yr 1800au, sy'n cyd-fynd â'r John go iawn a anwyd yn 1880 ac felly oedd tua 11 oed yn 1891.

Gellir amrywio'r 'Fantell' hon ar gyfer amrywiol oedrannau a gallu ar draws yr ysgol gyfan.

Awgrymiadau yw'r canlynol am y camau y gallech eu cymryd. Mae'r ohebiaeth gan reolwr ffuglennol y Ganolfan Ddiwylliant Mari Jones wedi'i chynnwys; fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai'n well gan athrawon fod yn 'athro yn y rôl' ac actio cymeriad y cleient.

Y Cleient: Rheolwr Canolfan Ddiwylliant Conwy - Mari Jones

Ymwadiad: Nodwch mai cymeriad yw Mari Jones, Rheolwr y Ganolfan Ddiwylliant, a ddefnyddir at bwrpas yr ymarfer hwn, fel catalydd ar gyfer yr ymarfer.

Briff: Ymchwilio, dylunio a datblygu eich arddangosfa amgueddfa eich hun o dan y teitl 'Bywyd Fictoraidd fel plentyn yng Nghonwy.'
Cyflwyno eich arddangosfa i Dîm Canolfan Ddiwylliant Conwy.

Gall plant weithio mewn grwpiau ac ymgymryd â gwahanol rolau a thasgau.

Rydym yn awgrymu eu bod yn dylunio elfennau o'r arddangosfa yn defnyddio ystod o gyfryngau – arteffactau, dogfennau, sgysiau, arddangosiad, ffilm a gemau. Bydd eu helfennau yn dod at ei gilydd fel arddangosfa gyflawn o hanes lleol.

Rydym wedi cynnwys rhai tudalennau o ddyddiadur John. Gall y rhain ddarparu'r man cychwyn ar gyfer ymchwil, darparu cyd-destun, gwybodaeth gefndir a throsolwg o'r hyn oedd yn digwydd yn lleol gyda rhywfaint o gyd-destun DU.

Mae'r gwrthrychau a'r gweithgareddau a awgrymwyd wedi eu cynnwys i danio eich dychymyg a'ch arwain at siwrnai llawn hwyl i oes Fictoraidd Conwy.

Er y gellir defnyddio'r adnoddau hyn yn yr ysgol yn unig, hoffai Canolfan Ddiwylliant Conwy eich gwahodd i ymweld â'r Ganolfan i gyflwyno eich gwaith. Mae staff Canolfan Ddiwylliant Conwy hefyd ar gael i'ch helpu chi a'ch myfyrwyr gydag unrhyw ymchwil yn y dyfodol.

E-bost LIC@conwy.gov.uk

Dolenni defnyddiol:

<http://historypoints.org/index.php?page=conwy-county-borough>

<https://museum.wales/articles/2011-04-11/Children-in-Mines/>

<https://www.nationalarchives.gov.uk/education/resources/victorian-lives/>

https://www.dailymail.co.uk/travel/travel_news/article-4802648/

[Vinatge-postcards-reveal-landscapes-Victorian-Wales.html](http://www.vinatge.com/postcards-reveal-landscapes-Victorian-Wales.html)

Proses y 'Fantell'

Cam 1

Yr athro yn derbyn e-bost gan Reolwr Canolfan Ddiwylliant Conwy

Rydym wedi derbyn tudalennau o ddyddiadur a ysgrifennwyd gan fachgen o'r enw John tua 130 o flynyddoedd yn ôl ac roeddem yn gobeithio y gallech ein helpu ni. Rydym angen cwmni i ymchwilio, cynllunio a chyflenwi arddangosfa ddwyieithog dros dro newydd yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy. Hoffem pe tai tudalennau'r dyddiadur yn ysbrydoli arddangosfa o blentyndod Fictoraidd yng Nghonwy. Rydym yn sylweddoli fod hon yn dasg heriol, ond rydym wedi clywed fod gennych dîm anhygoel o bobl greadigol gyda'r sgiliau sydd eu hangen i baratoi arddangosfa anhygoel. Hoffem i chi ddewis 10 eitem i'w defnyddio i adrodd eich stori. Os oes gennych ddiddordeb yn y gwaith hwn dylech ddarparu dogfen dendro sy'n cynnwys:

Enw'r cwmni, rolau'r swydd/rolau'r tîm, Dull darparu, amserlen waith.

Cofion

Mari Jones

Rheolwr Canolfan Ddiwylliant Conwy

Gweithgareddau a awgrymir:

- Dosbarth yn cynnal cyfarfod ble maent yn trafod sut i sefydlu cwmni, pa rolau ddylent fod, sut i ddewis y rolau
- Ymchwilio sut mae arddangosfeydd yn cael eu trefnu/strwythuro. Ydyn nhw'n gweithio mewn timau sefydliadol, er enghraifft, tîm ymchwil, tîm ysgrifennu, tîm dehongli, tîm dylunio, tîm marchnata?
- Myfyrwyr yn ysgrifennu CV syml
- Trafod y gwaith a phenderfynu beth fydd angen ei wneud a faint fydd yn ei gymryd

Cam 2

Mae'r dosbarth yn paratoi ac yn anfon y ddogfen dendro i Ganolfan Ddiwylliant Conwy

Cam 3

Athro yn derbyn ymateb i'r tendr

Roedd eich cynnig yn rhagorol, a hoffem petai eich cwmni yn dylunio ein harddangosfa newydd. Amgaeaf dudalennau'r dyddiadur, gyda chyfieithiad Saesneg a rhai eitemau. Sylwer bod y casgliad hwn yn bwysig ac angen ei drin gyda llawer o barch. Edrychw'n ymlaen at weithio gyda chi.

Cofion

Mari Jones

Rheolwr Canolfan Ddiwylliant Conwy

Gweithgareddau a awgrymir:

- Dosbarth yn ffurfio cynllun ar gyfer eitemau yn cyrraedd; lle i agor yr eitemau, lle i'w storio nhw, sut i drin yr eitemau
- Plant yn chwarae'n ofalus gyda'r eitemau, i weithio allan sut roeddent yn cael eu defnyddio, a thrafod beth gallen nhw ddweud wrthym am y gorffennol.
- Ydyn nhw'n syml i'w gwneud? Pa ddeunydd a ddefnyddiwyd ar gyfer yr eitemau? Deunydd naturiol neu ddeunydd wedi eu creu? Gwnaed â llaw neu mewn ffatri?
- Dosbarth yn trafod sut i'w cyfateb gyda'u disgrifiadau a sut i'w didoli ar gyfer yr arddangosfa

Uwch:

- Dosbarth yn ymchwilio Conwy Fictoraidd i gael mwy o wybodaeth a dylunio eu harddangosfeydd
- Grwpiau yn paratoi braslun, sgrïptiau, modelau o elfennau'r arddangosfa
- Plant yn ysgrifennu'r testun i gyd-fynd â'r arddangosfa

Cam 4

Dosbarth/cwmni yn anfon e-bost i Ganolfan Ddiwylliant Conwy i ddweud bod yr arddangosfa wedi'i dylunio ac yn barod.

Cam 5

Dosbarth/cwmni yn derbyn e-bost gan Ganolfan Ddiwylliant Conwy

Diolch i chi am eich e-bost. Rydym yn gyffrous iawn i glywed fod yr arddangosfa wedi'i chwblhau.

Llawer o ddiolch am eich gwaith caled.

Cofion

Mari Jones

Rheolwr Canolfan Ddiwylliant Conwy

Gweithgareddau a awgrymir:

- Dosbarth yn cwrdd i drafod sut i gyflwyno'r arddangosfa a pharatoi'r cyflwyniadau (gall hyn fod yn gyfuniad o gyflwyniad llafar, drama yn defnyddio eitemau, fideos ac ati.)
- Profi eu harddangosfa a chyflwyniadau drwy wahodd gwsteion (dosbarthiadau eraill/rhieni) i weld yr arddangosfa yn yr ysgol
- Mae ffurflenni gwerthuso yn cael eu dylunio a'u rhoi i'r gwsteion. Mae adborth yn cael ei gasglu a'i roi mewn graffiau ar gyfer ei ddadansoddi. Mae adroddiad yn cael ei baratoi
- Dosbarth yn trafod y canfyddiadau yn yr adroddiad ac yn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r arddangosfa/cyflwyniadau
- Dosbarth yn paratoi e-bost i Ganolfan Ddiwylliant Conwy yn nodi bod yr arddangosfa wedi'i chwblhau, wedi'i hadolygu ac yn barod i'w gosod

- Plant yn ymchwilio taflenni hyrwyddo a dylunio rhai eu hunain
- Dosbarth yn ymchwilio marchnata cyfryngau cymdeithasol ac yn dylunio rhestr swyddi
- Maent yn paratoi cynllun pacio arddangosfa a'r daith i Ganolfan Ddiwylliant Conwy i osod eu harddangosfa
- Dosbarth yn paratoi i ddadbacio'r arddangosfa yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy
- Maent yn ymarfer eu cyflwyniad

Cam 6

Dosbarth/cwmni yn derbyn e-bost diolch

Llawer o ddiolch am eich gwaith diweddar i Ganolfan Ddiwylliant Conwy. Mae'r arddangosfa yn llwyddiant enfawr.

Cofion

Mari Jones

Rheolwr Canolfan Ddiwylliant Conwy

Tudalennau'r Dyddiadur

Tudalen 1 yn y Dyddiadur

18 Ionawr 1891

Rwyf wrth fy modd gyda dydd Sul gan ein bod yn mynd i'r capel a'r ysgol Sul. Mae'n wych. Dwi'n gallu siarad gyda fy ffrindiau i gyd, yn y Gymraeg, a gallwn ddarllen yr ysgrythyrau a gwranddo ar y dynion hŷn yn sgwrsio am y gwersi yn y Beibl, y llyfr gorau yn y byd. Weithiau maent yn dadlau ynglŷn ag ystyr pethau. Rydym yn mynd i'r capel bron bob nos i wasanaeth neu wers. Rwy'n hoffi canu hefyd ac yn gobeithio dysgu'r sol-ffa yn fuan.

Mae dydd Sul yn wych oherwydd nad ydym yn cael ein troi allan o'r tŷ gan mam, gydag ychydig o fara menyn am y dydd. Mae mam yn coginio cig i ni ar ddydd Sul. Nid ydym yn cael ein troi allan os yw'n glawio'n drwm; rydym yn cael ein hanfon i gornel y gegin i chwarae gemau.

Mae mam yn coginio'r bwyd mwyaf anhygoel a'i bara yw'r gorau. Weithiau ar ddydd Sul byddwn yn mynd â bwyd i'r capel ac yn bwyta gyda'n gilydd, er mwyn gallu blasu gwahanol bethau.

Adnoddau:


- Llyfr Syr Henry Jones
- Pecyn addysg Syr Henry Jones
- Llyfr Emynau
- Io-io
- Marblis
- Diablo
- Acrobat
- Dominos
- Drafftiau
- Pêl
- Rhaff sgipio (gwreiddiol)
- Stiltiau bloc pren
- Ceffyl tynnu
- Chwrligwgan

Sylwer

- Mae'r Capel yn darparu canolbwynt cymunedol a theimlad o berthyn.
- Bob dydd roedd plant yn cael 'troi allan i chwarae' yna'n dychwelyd gartref ar gyfer pryd o fwyd gyda'r hwyr.
- Roedd sol-ffa yn ffordd newydd o ganu oedd yn canolbwyntio ar seiniau a sillafau. 'Do Re Mi', cân o *The Sound of Music* gafodd ei ysbrydoli gan y system dysgu cerddoriaeth sol-ffa, oedd Maria yn arfer ei dysgu i deulu'r Von Trapp.

Gweithgareddau:

- Beth ydych chi'n feddwl oedd plant yn ei wneud pan oeddent yn cael eu 'troi allan' o'r tŷ?
- Pa fath o gemau oedden nhw'n eu chwarae pan nad oeddent yn cael aros yn y tŷ ar ddiwrnod gwlyb? Chwarae gyda'r teganau a'r gemau o'r cês adnoddau.
- Dysgu'r gân 'Do Re Mi' a rhoi cynnig ar yr harmonïau.
- Defnyddio'r teganau i ddylunio arbrofion. Am faint allwch chi gadw'r io-io i fynd? Am faint allwch chi gadw'r diablo yn troelli? Sawl tro llawn ar y rhaff sgipio mewn 1 mun, 2 fun...? Dyfalu, dylunio dull, mesur a chofnodi canlyniadau.
- Defnyddiwch **Dominos for Maths** <https://www.stem.org.uk/news-and-views/opinions/10-ways-use-dominoes-your-mathematics-classroom>
- Gwnewch eich Drafftiau Bach eich hun i'w gwneud yn haws i ddysgwyr ifanc. Gall gostyngiad ym maint y bwrdd gêm ei hun (grid) a'r nifer o ddarnau roi'r teimlad o ddrafftiau 'go iawn' heb y nifer llethol o symudiadau posibl.



Tudalen 2 yn y Dyddiadur

14 Chwefror 1891

Nid yw Owen yn yr ysgol eto. Mae ei dad wedi cael damwain ac mae angen help Owen ar y ffarm i ddod ag arian i mewn. Maent yn ei chael hi'n anodd ymdopi, ond bydd yn cael dirwy arall os rhoddir gwybod amdano.

Maent yn dod â phobl i mewn i weithio ym mhob un o'r mwyngloddiau lleol. Mae dad yn dweud fod y tai mae'r gweithwyr yn byw ynddynt ym Mhenrhyn yn disgyn yn ddarnau. Mae dŵr budr a charthion yn llifo i lawr yr allt. Mae dad yn dweud eu bod wedi cyflogi rhywun i wagu'r tai bach a symud sbwriel. Fyddwn i ddim yn dymuno gwneud y gwaith hwnnw. Mae mam yn dweud y bydd yna glefydau yn fuan.

Mae Thomas, brawd hynaf Owen mewn trwbl. Mae wedi cael gwialen fedw gan gwnstabl deuddeg gwaith am ddwyn dau fochyn cwta. Dydy o ddim yn help i'w deulu. Os bydd yn parhau i droseddu, efallai y byddant yn ei anfon i ffwrdd i ysgol benyd yn Lloegr.

Lle arall mae gennyf ofn mynd yno yw'r wyrsws. Mae mam yn dweud ei bod wedi clywed ei fod yn fudr iawn a bod pobl yn cael eu trin yn wael. Gwelodd mam Annie yn y dref; mae'n gweithio yno fel cynorthwydd y metron. Dywedodd Annie fod yna 118 o bobl yn byw yno ar hyn o bryd ac mae llawer ohonynt yn blant. Mae rhai o'r plant, fel David, yn dod i fy ysgol; mae'r wyrsws yn talu 'ffioedd tlotyn' felly bydd yr ysgol yn eu derbyn. Dwi'n teimlo dros blant y tloty. Nid oes ganddynt unrhyw ddewis heblaw mynd i'r wyrsws os nad oes gan eu rhieni ddigon o arian, neu fel arall byddent yn llwgu.

Adnoddau:

- Cofnod cyfrifiad Wyrsws Conwy 1881
- Cofnod Troseddau
- Gwialen fedw
- Poster glanweithdra
- Ffioedd ysgol, cofnod dirwyon
- Arwydd colera

Sylwer

- Mae'r ffordd o sillafu 'Conwy' wedi newid dros y blynyddoedd; yn y cyfnod hwn cyfeiriwyd at Gonwy fel 'Conway' mewn sawl ffynhonnell ysgrifenedig o'r cyfnod.
- Tai bach = bwcedi toiled
- Gwialen fedw = canghennau o goed bedw wedi eu clymu gyda'i gilydd
- Roedd moch cwta yn anifail anwes poblogaidd
- Ysgol wedi'i wneud yn orfodol ond roedd yn rhaid talu ffi
- Cosbau a dirwyon am golli'r ysgol

Gweithgareddau:

- Ymchwilio'r wyrchw, plotio graffiau ar gyfer y nifer o bobl oedd yn byw yno dros gyfnod o amser.

<http://www.workhouses.org.uk/Conway/>

<https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Council-Tax/Council-Tax-Consultation.aspx>

Tudalen 3 yn y Dyddiadur

5 Mawrth 1891

Yn yr ysgol heddiw. Un athro sydd yna, Mr Rees, i'r 140 o fechgyn. Yna mae ganddo'r Disgybl Athrawon sy'n ei helpu, ond bechgyn ychydig hŷn na mi ydynt. Mae Mr Rees yn eu haddysgu nhw ac yna maen nhw'n ceisio ein haddysgu ni. Mae gwersi'r ysgol yn Saesneg, ond nid yw pob un ohonom yn gallu siarad Saesneg. Rwyf wedi clywed mewn rhai mannau eraill yng Nghymru y gall plant ddod i helynt mawr yn siarad Cymraeg yn yr ysgol ac maent yn cael y 'Welsh Not'. Os mai chi yw'r un sy'n dal y 'Welsh Not' ar ddiwedd y dydd, byddwch yn cael y gansen! Nid yw fy ysgol i'n poeni lawer os ydym yn siarad Cymraeg ac mae pob un ohonom yn y côr yn cael cyfle i fynd i'r Eisteddfod ym Mae Colwyn.

Mae mam yn fy annog i ysgrifennu yn y dyddiadur hwn; wnes i ddysgu ysgrifennu yn y Gymraeg yn yr Ysgol Sul, ac mae hi eisiau i mi ymarfer. Mae yna si bod gŵr o Lundain am arolygu pob ysgol yn fuan. Tybed beth fydd yr arolygydd o Lundain yn feddwl o Ysgol Congo.

Mae'r Parchedig Hughes yn dod â phlant o'r Congo i ddysgu Cristnogaeth. Mae dad yn dweud ei bod yn boeth iawn lle maen nhw'n byw. Mae'n dweud fod yna rywbeth o'i le oherwydd eu bod yn cael partion ble maent yn gwisgo ac yn dawnsio'n rhyfedd. Mae'n dweud y bydd yna sgandal, ond mae mam yn meddwl fod y Parchedig Hughes yn glên iawn yn dod â nhw yma ac dysgu'r ysgrythur iddyn nhw.

Roedd tad fy ffrind Owen yn y llys am beidio â'i anfon i'r ysgol. Cafodd ddirwy o 5 swllt.

Adnoddau:

- Llyfryn Addysg yng Nghonwy
- Llyfr Syr Henry Jones
- Pecyn addysg Syr Henry Jones
- Llechen
- Abacws
- Welsh Not
- Llawysgrifen
- Dogfennau
- Lluniau

Nodiadau

- Mae'n rhaid i bob plentyn gael mynediad i ysgol elfennol. Fodd bynnag, roedd hyfforddiant athrawon yn wael; ychydig o adnoddau oedd ganddynt ac yng Nghymru nid oedd llawer yn cael siarad Cymraeg gan fod pobl yn Llundain yn meddwl bod y Cymry yn 'codi helynt'. Roedd pob math o bobl anghyffredin yn athrawon.
- Darn o blwm neu goed neu blac oedd y Welsh Not oedd yn cael ei wisgo i ddangos fod plentyn wedi siarad Cymraeg. Roedd amrywiadau mewn arddull a chosb yn cydfynd â'r arferiad hwn.
- Byddai 5 swllt wedi bod yn £16.55 yn arian heddiw, ond cofiwch y byddai tâl labrwr ar gyfartaledd wedi bod oddeutu £60 y flwyddyn neu £4,000 yn arian heddiw.

Gweithgareddau:

- Ysgrifennwch ddarn yn eich dyddiadur eich hun ar ddiwrnod yn yr ysgol.
- Rhowch y Welsh Not ymlaen – trefnwch act o olygfa mewn ysgol Fictoraidd.
- Trafodwch y cydraddoldeb sydd yna nawr o'i gymharu gyda'r ffordd yr oedd pobl yn cael eu trin yn y gorffennol.
- Rhowch gynnig ar **Victorian handwriting** http://www.primaryresources.co.uk/history/pdfs/Victorian_Handwriting.pdf
- Defnyddiwch yr abacws i osod a datrys cwestiynau mathemateg.

Tudalen 4 yn y Dyddiadur

7 Ebrill 1891

Fe wnaeth Mary fy chwaer hynaf adael cartref heddiw. Mae hi'n mynd i fod yn forwyn yn Lerpwl. Mae ein tŷ bach yn Nheras Waen yn teimlo'n llawer mwy ac yn dawelach rwan.

Mae gennym un ystafell i lawr y grisiau ble rydym yn coginio ac yn bwyta, ac un ystafell wely i fyny'r grisiau gyda dau wely mawr a chrud. Mae braidd yn gyfyng gyda Dad a fi mewn un gwely; Mam, Catherine a Margaret fach yn y llall a'r baban William yn y crud.

Mae yna ystafell arall wrth y gegin ble mae Dad yn gwneud teganau o ddarnau o goed pan mae'n cyrraedd adref o'r gwaith fel saer yn y chwarel. Dyma ble roedd Mary yn arfer cysgu. Mae Dad yn gwerthu'r teganau ac mae Mam yn gwneud a gwerthu doliau. Mae hyn yn rhoi arian ychwanegol i ni gael pethau fel llaeth melys. Dwi'n hoffi llaeth enwyn, ond mae llaeth melys mor flasus a melys. Mae mam yn anhygoel; mae'n tyfu popeth mae'n gallu ei dyfu yn ein gardd, a gall ei droi yn brydau a meddyginiaethau. Mae'n cyfnewid gyda'n cymdogion hefyd. Mae dad wedi adeiladu popty bara ac mae pobl yn dod â'u bara ac mae mam yn marcio eu llythrennau arno ac yn ei bobi iddynt yn barod i'w gasglu yn y prynhawn. Mae'n rhatach na defnyddio'r becws.

Adnoddau:

- Llyfr Syr Henry Jones
- Pecyn addysg Syr Henry Jones
- Llyfr Craiglwyd
- Doilis
- Marblis
- Tegan wedi ei wneud â llaw
- Pestl a Morter
- Padell wely
- 'Padell ddŵr poeth'
- Tegell
- Haearn smwddio
- Patiau menyn a lliain llaeth
- Cofnodion coeden deulu John 1880
- Rhigwm 'Pat-a-cake'

Syniadau gweithgaredd:

- Cymharwch eich cartref gyda chartref John. Lluniwch a labelwch gynlluniau tŷ ar gyfer y ddau. Cefnogwch y tebygrwydd a'r gwahaniaethau.
- Gwylwch y ffilm **How to Make Butter – the Victorian Way** <https://www.youtube.com/watch?v=DV7hop4m0YQ> ar YouTube.
- Defnyddiwch y pestl a mortar ar gyfer perlaysiau a menyn. Rhowch gynnig ar flas gwahanol ar graceri.
- Edrychwch ar goeden deulu John. Lluniwch un eich hun.
- Darllenwch y rhigwm pat-a-cake. Darllenwch sut y gall caneuon a rhigymau ddweud wrthym am ein hanes. Ysgrifennwch eich rhigwm eich hun am rywbeth yn eich bywyd.
- Dyluniwch gêm gyda marblis.
- Defnyddiwch farblis i adio a thynnu.

Nodiadau

- Llaeth enwyn oedd yr hylif oedd yn weddill ar ôl corddi menyn. Oherwydd eplesiad, roedd yn blasu'n eithaf sur. Llaeth cyflawn arferol oedd llaeth melys, oedd yn blasu'n felys o'i gymharu.
- Un neu ddau o gartrefi (neu un siop) yn unig oedd â phopty bara mewn pentref. Dyma ble ddaeth y rhigwm 'pat-a-cake, pat-a-cake'. Roedd llythrennau yn cael eu rhoi ar y bara i adnabod y perchennog. Ar ôl eu pobi, roedd y bara yn cael ei ddychwelyd i'r perchennog am dâl bach neu fasnach.

Tudalen 5 yn y Dyddiadur

19 Mai 1891:

Rydym yn lwcus ein bod ar y llwybr postio uniongyrchol; rydym yn derbyn llythyrau rheolaidd gan Mary yn Lerpwl. Mae hi'n ymddangos yn drist yr wythnos yma. Mae pethau'n ddrwg yn Lerpwl. Mae hi'n dweud fod yna fwy a mwy o blant yn cardota ac yn gweithio ar y strydoedd. Mae hi'n dweud unwaith mae'r plant yn gallu cropian, maent yn cael gwaith. Mae llawer o bobl wedi cychwyn mynd i deimlo'n sâl gyda ffliw. Anfonodd ddarn o bapur newydd y Bolton Evening News atom, oedd yn sôn amdano.

Mae llawer o bobl hŷn wedi dweud wrthi fod hyn yn eu hatgoffa o'r achosion o golera pan oedden nhw'n ifanc. Dyma'r darn oedd yn gwneud i mi deimlo'n sâl; roedden nhw'n deud eu bod yn pwmpio carthion i'r afon, yna maent yn pwmpio dŵr o'r afon yn ôl i'r tai i'w yfed. Mae'n swnio'n ofnadwy ac mae hi'n meddwl y bydd yna achosion eraill o golera yn fuan.

Roeddwn i'n meddwl ein bod wedi'i gwasgu yn ein tŷ ni! Mae wedi sylwi bod yna 34 o bobl wedi eu gwasgu i 3 ystafell i lawr y ffordd, ac mae eraill yn rhentu eu selerau allan hefyd. Does dim gwaith nac arian ond mae pobl yn symud o'r ardaloedd gwledig oherwydd y degymau, tollau a threthi.

Mae mam eisiau iddi ddod adref, ond mae Dad yn dweud na allwn fforddio iddi roi'r gorau i'w swydd a dod adref. Mae Mary angen ennill ei bywoliaeth ei hun nawr ei bod yn 14 oed. Mae'r garreg mae fy nhad yn ei chloddio yng Nghraiglwyd yn cael ei defnyddio ar ffyrdd Lerpwl, felly mae Dad yn hoffi'r ddinas. Ond Mam sydd â'r gair olaf, felly dwi'n meddwl y bydd Mary adref erbyn Mehefin. Mae hi'n dweud ein bod yn llai tebyg o gael twymyn yma, er bod llawer ohonom yn yr ysgol wedi bod i ffwrdd yn sâl gyda'r frech goch yn ddiweddar.

Adnoddau:

- Llyfr Syr Henry Jones
- Pecyn addysg Syr Henry Jones
- Llyfr Craiglwyd
- Llyfr log yr ysgol, cyfeiriad at y frech goch
- Cofnodion clefydau plentyndod cyffredin, newyddion

Sylwer

- Yn 1801 unwyd seneddau Iwerddon a Phrydain Fawr er mwyn ffurfio un llywodraeth. Er mwyn cyflymu'r broses o gyfathrebu rhwng y ddwy wlad, agorwyd llwybr post newydd: Lerpwl i Gaergybi
- Roedd y llwybr o Gaer i Gaergybi yn caniatáu teithwyr i deithio ar drên i Ogledd Cymru. Bu hyn o help mawr i roi hwb i dwristiaeth yn lleol ac arweiniodd at dwf trefi fel Penmaenmawr a Llandudno i gyrchfannau Fictoraidd sylweddol
- Naddwyd y graig o Chwarel Graiglwyd er mwyn gwneud cerrig ar gyfer strydoedd a ffyrdd ar gyfer nifer o drefi yn ystod y cyfnod Fictoraidd. Llwythwyd y cerrig hyn i longau mawr a'u cludo i nifer o drefi yng ngogledd orllewin Lloegr gan gynnwys Manceinion, Warrington a Lerpwl.
- Roedd teuluoedd oedd ddim yn gallu fforddio cadw eu plant yn talu i rywun ofalu amdanynt. Yn aml, roedd y bobl yma'n trin y plant yn wael ac yn gwneud iddynt gardota neu ddwyn.
- Weithiau byddai plant bach yn glanhau esgidiau neu'n gwneud matsys i'w gwerthu ar y strydoedd.
- Roedd amodau hylendid yn wael ac roedd pobl yn byw'n agos iawn at ei gilydd: yn 1832, 1849 ac 1866 bu epidemig colera yn Lerpwl. Roedd symptomau yn cynnwys dolur rhydd, troi'n las, ac yn aml roedd yn arwain at farwolaeth.
- Rhwng 1889 ac 1894 bu straen newydd o fflw yn lledaenu ar draws y byd, gan ymsefydlu yn rhai o drefi mwyaf y DU. Bu farw dros 120,000 o bobl Prydain o'r fflw. Adroddwyd am y pandemig mewn papurau newydd ar draws y byd

Gweithgareddau:

- Cymharu bywyd gwledig a dinas
- **Murder Mystery – Cholera** <https://www.tes.com/teaching-resource/murder-mystery-cholera-6242076>
- Gorboblogi a diffyg glanweithdra yn arwain at lawer o glefydau. Ymchwilio'r clefydau a thrafod pwysigrwydd hylendid personol a glanweithdra. Dylunio taflen ar gyfer teulu John i'w cyngori sut i ddiogelu eu hunain rhag y clefydau.
- Sut wnaeth ychwanegu'r trê'n cludo pobl newid Conwy? Agorwyd yr orsaf drenau yn nhref Conwy yn 1848

Tudalen 6 yn y Dyddiadur

8 Gorffennaf 1891

Bu damwain fach yn y chwarel heddiw, yn lwcus iawn chafodd neb eu brifo yn rhy ddrwg y tro yma.

Clywes i'r hen bobl yn siarad; mae nhw'n dal i gofio straeon o ddegawdau'n ôl am bobl yn cael eu chwythu i fyny neu'n cwmpo i'w marwolaeth yn y pyllau a'r chwareli. Am swydd ddychrynlyd, gobeithio na fydda' i yn gorfod gweithio yno!

Mae yna lawer o bobl gyfoethog yn ymweld. Ond maent yn mynd i Landudno yn bennaf ar gyfer adloniant. Rwyf wedi gweld rhai o'r arwyddion ffansi. Mae rhai o'r bobl hyn yn ei alw yn 'annuwiol' ond maent yn dal i fwynhau siarad amdano. Maent yn dal i siarad am y cwffio rhwng Pwnsh a Jwdi a'r Bird Man ychydig flynyddoedd yn ôl.

Cerddodd fy chwaer a minnau heibio Academi'r Celfyddydau yng Nghonwy y diwrnod o'r blaen. Dim ond ychydig flynyddoedd yn ôl y cafodd ei sefydlu gan grŵp o arlunwyr enwog o Loegr. Maent yn paentio'r castell a'r olygfa o'r mynyddoedd ac allan i'r môr.

Adnoddau:

- Llyfr Syr Henry Jones
- Pecyn addysg Syr Henry Jones
- Poster adloniant
- Trafodaeth a nodiadau Pwnsh a Jiwdi/Bird Man – dogfennau blwch stori
- Newyddion ffrwydradau
- Pecyn gwybodaeth Academi Celf

Sylwer

- Amodau peryglus yn nifer o'r chwareli lleol: daeth ffrwydradau a damweiniau yn fwy aml, ac adroddwyd am y marwolaethau yn y papurau newydd lleol.
- Y celfyddydau a thwristiaid yng Nghonwy a Llandudno: nifer y tafarndai a bwytai, difyrwyr, theatrau, sinemâu a chychod yn cynyddu oherwydd hynny.

Gweithgareddau:

- Ymchwilio'r adloniant yn yr oes Fictoraidd. Dylunio eich sioe eich hun neu boster sioe.
- Ymchwilio'r ffræe rhwng y 'Bird Man' a'r a'r dyn Pwnsh a Jiwdi. Pam eu bod nhw'n ymladd?

Tudalen 7 yn y Dyddiadur

14 Tachwedd, 1891

Efallai bod fy ffrind Robert Cassidy yn symud i ffwrdd. Mae ei dad yn bygwth symud i'r mwyngloddiau ger Wreccsam. Mae yna waith yno, nid yw'n mwynhau bod yn borthor. Byddent yn cyflogi Robert a'i frawd Samuel hefyd. Byddai'n agor gorddrws ar gyfer certiau; swnio'n eithaf hawdd. Byddai ei fam a'i chwiorydd mwy na thebyg i fyny'r allt. Mae ei chwaer Sarah yn cael hunllefau am weithio tan y ddaear; roedd ei Thad wedi dweud wrthi y byddai llygod mawr yn rhedeg i ffwrdd gyda'ch bara. Mae mam yn dweud fod Mr Cassidy yn feddw ac yn 'siarad lol'. Nid yw'n ei hoffi ac mae yn y llys bob amser. Mae Mam hefyd yn dweud, "bod y Frenhines yn dweud na ddylai plant fod yn gweithio nes maent yn hŷn, yn arbennig o dan ddaear." Byddwn yn casáu bod yn y tywyllwch drwy'r dydd a byddwn yn poeni am y damweiniau. Clywais rywun lleol yn siarad am chwarelwr wedi boddi yn harbwr Llanddulas yn gynharach heddiw.

Mae llawer o bobl yn gadael. Mae'r degwm yn golygu nad yw teuluoedd yn gallu gwneud digon o arian i fyw arno. Mae ffrindiau sy'n gweithio ar y ffermydd yn dweud fod y degwm wedi codi o 1/10 i 1/4 y cig a'r llysiau. Ac mae'r cyfan yn mynd i'r Eglwys Anglicanaidd. Dydyn ni ddim hyd yn oed yn mynd i Eglwys y Santes Fair yn y dref, rydym yn mynd i'r capel.

Clywais y bobl hŷn yn y capel yn dweud fod y degwm wedi achosi digon o helynt. Nid yw pobl yn gallu eu fforddio ac maent yn gwneud pobl yn dlotach bob dydd. Dywedodd yr hen Thomas ei fod yn 'hurt'; mae'r Eglwys yn mynnu'r degwm sy'n gwneud pobl yn dlotach, a bellach maent yn rhoi bwyd, arian a dillad allan i helpu'r tlawd. Pam nad ydynt yn trethu'r bobl gyfoethog a gadael i ni'r bobl dlawd fyw bywyd gonest?

Adnoddau:

- Cofnodion a newyddion Mochdre
- Llyfr Syr Henry Jones
- Cofnodion a newyddion Mwyngloddiau yn Wreccsam
- 'Cofnodion dogni
- John Cassidy

Sylwer

- Protestiadau yn erbyn y degymau a gyflwynwyd gan y senedd oedd aflonyddwch Mochdre. Roedd y degwm yn golygu bod gweithwyr ar y tir yn gorfod talu treth mewn arian neu fwyd. Roedd hyn yn cael ei rannu rhwng y tiffeddianwyr a'r Eglwys yn Lloegr. Nid oedd gan lawer o bentrefi eglwysi nac ysgolion yr Eglwys yn Lloegr, felly roedd y degymau yn diflannu. Roedd y degymau yn uchel ac yn golygu nad oedd pobl yn gallu eu fforddio ynghyd â bwydo a dilladu eu teuluoedd. Roedd llawer o bobl yn gadael i weithio yn y mwyngloddiau neu yn y dinasoedd. Roedd aflonyddwch yn arwain at derfysg oedd yn aml yn dreisgar.
- Roedd Tref Conwy yn cynnwys cymysgedd o fynychwyr yr eglwys a'r capel. Fodd bynnag, capelwyr oedd y mwyafrif o bobl yn y pentrefi lleol. Roedd y bobl hyn yn y pentref yn rhedeg y capeli. Roedd y bechgyn ifanc yn gweld y bobl hyn fel modelau rôl a byddent yn dysgu am y Beibl yn y gobaith y byddent yn dod yn flaenoriaid pan fyddent yn hyn. Roedd y capeli yn fannau diogel i gyfathrebu yn y Gymraeg a chael digwyddiadau cymdeithasol; roeddent yn cynnig adloniant a ffynhonnell newyddion i'r pentrefwyr.
- Ffynnodd y diwydiant mwyngloddio a chynyddodd nifer y bobl oedd yn cael eu denu i ddod o hyd i waith a gwneud arian. Fodd bynnag, y gwirionedd oedd amodau gwael gartref a'r gwaith, a thâl isel gyda thoriadau cynyddol mewn tâl. Er gwaethaf newid yn y gyfraith i atal plant rhag gweithio tan y ddaear, roedd yn parhau i ddigwydd ar draws Cymru am lawer o flynyddoedd.

Gweithgareddau:

- Ymchwilio sut oedd bywyd mwyngloddio i blant
- Y Celfyddydau Mynegiannol – dawns i ddangos pa mor gorfforol oedd gweithio yn y mwyngloddiau
- <https://www.bbc.co.uk/sounds/play/p050fcyk>
- Ymchwilio i derfysgoedd Mochdre

Cyfeiriadur Adnoddau

| Eitem | Defnydd |
|-----------------------|--|
| Tegell haearn | Berwi dŵr |
| Haearn smwddio | Smwddio dillad a meddalu lledr |
| Abacws | Gwaith mathemateg mewn ysgolion |
| 3 doili | Matiau addurniadol ar gyfer gwarchod arwyneb byrddau |
| Padell wely | I wneud pi pi yn y nos |
| Padell dŵr poeth | Potel ddŵr poeth |
| Llechen | I ysgrifennu arni |
| Lliain llaeth | I hidlo llaeth enwyn o fenyn |
| Arwydd colera | Hyrwyddo meddyginiaeth newydd, heb ei brofi |
| Patiau menyn | Er mwyn patio hylif allan o fenyn |
| 2 gap fflat i fechgyn | Gwisgo fyny / Chwarae rôl |
| 4 het mop i ferched | Gwisgo fyny / Chwarae rôl |
| 3 gwisg i ferched | Gwisgo fyny / Chwarae rôl |
| 2 wisg i fechgyn | Gwisgo fyny / Chwarae rôl |
| Rhaff sgipio | Gêm |
| Stiltiau bloc pren | Gêm |
| Io-io | Gêm |
| Marblis | Gêm |
| Diablo | Gêm |
| Acrobat | Gêm |
| Dominos | Gêm |
| Drafftiau | Gêm |
| Ceffyl tynnu | Chwarae rôl |
| Pêl | Gêm |